

Dadansoddiad o Adborth Cwricwlwm Cymru 2022

Adroddiad Plant a Phobl Ifanc

Hydref 2019





Cynnwys

01	Cyflwyniad i'r ymgynghoriad	4
02	Ynglŷn â Dynamix	5
03	Crynodeb	6
04	Methodoleg	8
	4.1 Grwpiau ffocws	8
	4.2 Holiadur Ar-lein	10
	4.3 Pecyn cymorth	12
05	Cyfranogwyr	13
06	Canlyniadau: Fy addysg	16
	6.1 Beth yw'r pethau pwysicaf ddylech chi eu cael o'ch addysg?	16
	6.2 Beth yw'r tri pheth gorau am eich addysg?	20
	6.3 Beth sy'n rhaid ei newid er mwyn gwella'r ffordd rydych chi'n dysgu a'ch profiad o ddysgu?	23
07	Canlyniadau: Meysydd Dysgu a Phrofiad	29
	7.1 Beth sy'n bwysig i blant a phobl ifanc ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad	30
08	Canlyniadau: Bod yn rhan o lunio'r cwricwlwm	32
	8.1 Hoffech chi helpu llunio'r cwricwlwm yn eich ysgol?	32
	8.2 Sut hoffech chi gymryd rhan?	34
	Atodiadau	yn cyd-fynd
	1 Pecyn cymorth	
	2 Canlyniadau llawn y cwestiynau ar y Meysydd Dysgu a Phrofiad	

01 Cyflwyniad i'r ymgynghoriad

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Dynamix ddarparu dulliau hygrych o gynnwys lleisiau plant a phobl ifanc yn nghyfnod adborth y cwricwlwm newydd. Er mwyn cael cyfradd ymateb eang defnyddiwyd tri dull o gyflwyno adborth;

Datblygwyd holiadur ar-lein i ganiatáu i blant a phobl ifanc ymateb yn eu hamser eu hunain.

Cynhaliwyd grwpiau ffocws ledled Cymru gyda 24 grŵp gan gynnwys grwpiau Cynradd, Uwchradd a grwpiau nodweddion gwarchoddedig.

Datblygwyd pecyn cymorth y gellid ei ddefnyddio gan arweinwyr ieuentid i gasglu barn eu grwpiau. Yn y pecyn cymorth roedd cyfarwyddiadau manwl ynghylch sut y gallai arweinwyr ieuentid gynnal gweithgareddau cyfranogol, llawn hwyl gyda phobl ifanc er mwyn iddyn nhw allu mynegi eu barn.


Gweithiodd Dynamix gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr iaith a ddefnyddiwyd yn hygrych i blant a phobl ifanc a bod y dulliau o gasglu adborth yn unol â'r safonau cyfranogi.



Menter gymdeithasol Gymreig sy'n darparu addysg ac yn arbenigo mewn rhoi llais i bobl yw Dynamix, maen nhw'n defnyddio gweithgareddau cyfranogol i ymgysylltu'n llwyr.

Mae Dynamix yn defnyddio gweithgareddau cyfranogol, ymgynghorol i sicrhau bod cyfranogwyr yn teimlo y gallan nhw fynegi barn. Defnyddir amrywiaeth o dechnegau sy'n gweddu i'r ffyrdd mae pobl yn hoffi lleisio barn, boed hynny'n gorfforol, gweledol, llafar, neu'n ysgrifenedig. Mae hyn yn golygu bod y cyfranogwyr yn teimlo'n ddigon cyfforddus a hyderus i gymryd rhan yn llawn yn y profiad gan ddefnyddio ymgynghori sy'n cael ei hwyluso, eu bod nhw'n teimlo'n rhan o'r broses ac yn gwybod bod eu syniadau a'u safbwyntiau'n cyfrif ac yn cael eu cyfrif.

Ategir methodolegau Dynamix gan ein gwerthoedd ymgysylltu drwy gymryd rhan a mwynhau, parch, cynhwysiad, cydweithredu a grymuso yn ogystal â gwerthoedd ac egwyddorion cydweithredol. Mae Dynamix hefyd yn credu'n gryf yn y 12 Egwyddor Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd¹ a 7 Safon Cenedlaethol Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc².



¹ <https://participation.cymru/cy/egwyddorion/>

² <http://www.plantynghymru.org.uk/ein-gwaith/cyfranogiad/safonau-cyfranogiad/>

03 Crynodeb

Mae'r canlyniadau o'r cyfnod adborth gan blant a phobl ifanc yn rhoi cipolwg ar y pethau sydd bwysicaf i ddysgwyr o ran eu haddysg a'u profiad o ddysgu, sut y gellid gwella pethau a beth sy'n bwysig iddyn nhw o ran y Meysydd Dysgu a Phrofiad.

Ystyrir pwysigrwydd gwybodaeth gan nifer fel y prif reswm dros fynd i'r ysgol ac fe'i cysylltir yn bennaf â phynciau â sgiliau bywyd penodol. Mae sgiliau gwaith a sgiliau bywyd yn elfen bwysig iawn i nifer fawr o'r cyfranogwyr yn ystod y cyfnod adborth hwn a chaiff cysylltiadau eu gwneud rhwng pynciau a chyfleoedd gyrfa. Caiff iechyd a ffitrwydd eu cysylltu'n agos ag iechyd corfforol a meddyliol i nifer o'r cyfranogwyr. Roedd dealltwriaeth glir a dyhead am iechyd a lles yn ogystal â phryder dros y rhai sydd angen cefnogaeth. Roedd pwysigrwydd addysg rhyw ac ABCh hefyd yn thema glir. Mae cyfeillgarwch yn bwysig gan gynnwys ffrindiau yn yr ysgol, pwysigrwydd ymddiriedaeth a pharch ac athrawon da. Roedd cysylltiad agos rhwng sgiliau cymdeithasol ac ymddygiad cymdeithasol a chyfathrebu i nifer o'r cyfranogwyr, felly roedd hyn yn golygu bod ieithoedd, gan gynnwys BSL yn bwysig. Roedd creu perthnasoedd, bod yn ofalgar, cael hwyl, dysgu am ddiwylliannau a chrefyddau eraill, ymddygiad a derbyn eraill, a chwarteisi i gyd yn elfennau pwysig o sgiliau cymdeithasol ac ymddygiad cymdeithasol. Roedd hyder yn gysylltiedig â bod yn hapus, cael hwyl, y cyfle i fod yn greadigol gyda chelf, drama a cherddoriaeth, a gallu cyfathrebu mewn gwahanol ieithoedd. Ymhlith y pethau oedd yn bwysig i'r cyfranogwyr nad oedd yn ffitio i unrhyw un o'r categorïau roedd ymwybyddiaeth o'r amgylchedd, cyfleusterau, athrawon penodol a sgiliau bywyd.

Nodwyd bod cyfranogwyr y grwpiau ffocws a'r holiadur ar-lein yn dweud mai ffrindiau oedd y peth gorau am addysg. Roedd hyn oherwydd y gefnogaeth oedd yn cael ei roi wrth gymell, cymdeithasu a chael hwyl. Roedd cael hwyl hefyd yn bwysig iawn i bobl ifanc er mwyn eu helpu i ddysgu a lleihau straen. Roedd hyn hefyd yn cynnwys teithiau ysgol oedd yn galluogi pobl ifanc i rannu profiadau gyda'u ffrindiau a dysgu wrth ymweld â gwahanol leoedd. Gwaith ysgol oedd un o'r pethau gorau am addysg i nifer o'r cyfranogwyr gan ei fod yn darparu cyfleoedd yn y dyfodol ac mai dyna'r rheswm dros fynd i'r ysgol. Er hynny, gwnaed sylwadau am effaith negyddol pwysau gwaith cartref.





Nodwyd themâu clir ynghylch yr hyn sy'n rhaid ei newid i wella addysg a'r profiad o ddysgu. Gellir gwella gwersi drwy eu gwneud yn fwy rhyngweithiol, deniadol, hamddenol ac yn fwy o hwyl. Gellir creu profiadau positif gyda mwy o deithiau, profiadau a mwy o ymwelwyr â'r ysgol. Cynhaliwyd y cyfnod adborth yn ystod yr haf ac roedd materion sy'n ymwneud â rheolau llym gwisg ysgol yn golygu bod yr hyblygrwydd i dynnu blasers mewn tywydd poeth yn bwysig i nifer o'r cyfranogwyr. Nodwyd bwlio yn ei amrywiol ffurfiau ac mewn graddau gwahanol, gan bron bob un o'r cyfranogwyr – awgrymwyd y byddai rhoi polisiâu llym ar waith yn gwella hyn ar gyfer dysgwyr ac mai defnyddio dull cyson sydd orau. Nodwyd drwyddi draw bod angen cefnogaeth i ddelio â phroblemau – gan gynnwys cefnogi pobl sy'n delio â phroblemau gartref, bwlio a'r rhai sy'n cael trafferth gyda gwersi. Byddai cael llais cryfach, gallu dewis pynciau, amserlenni a bod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio ar ddysgwyr yn gwella eu haddysg a'u profiad o ddysgu. Teimlid bod angen mwy o ddealltwriaeth ynghylch dysgwyr ag anghenion ychwanegol ac y byddai gallu addasu gwersi i gwrdd ag anghenion yn gwella dysgu. Gellid hefyd gwneud gwelliannau amgylcheddol, mae hyn yn arbennig o bwysig i blant a phobl ifanc sydd â nam clyw a'r rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol y mae lefelau sŵn yn effeithio arnyn nhw.

Cafodd cyfranogwyr y grwpiau ffocws gyfle i weld y datganiadau 'beth sy'n bwysig' ac 'esboniadau o'r datganiad beth sy'n bwysig' a phleidleisio a oedden nhw'n deall y datganiadau. Roedd yn glir o ganlyniadau'r grŵp ffocws bod plant a phobl ifanc yn meddwl bod yr 'esboniadau o'r datganiad beth sy'n bwysig' yn haws i'w deall ond nad oedd pawb yn llwyr ddeall yr esboniadau a mynegwyd pryder gan rai o'r cyfranogwyr na fyddai plant ifanc yn deall.

Gofynnwyd i'r rhai gymerodd ran yn y grwpiau ffocws a'r holiadur ar-lein beth oedd yn bwysig iddyn nhw am y Meysydd Dysgu a Phrofiad. Roedd hyn yn darparu disgrifiadau o 'beth sy'n bwysig' i blant a phobl ifanc ym mhob maes dysgu a phrofiad yn eu geiriau eu hunain. O'r wybodaeth hon mae Dynamix wedi gallu awgrymu 'beth sy'n bwysig' ar gyfer datganiadau plant a phobl ifanc. Gweler Adran 7.

Roedd yn glir yr hoffai mwyafrif y plant a phobl ifanc fod yn rhan o lunio'r cwricwlwm yn eu hysgol gan eu bod yn teimlo y dylai eu lleisiau gael eu clywed gan mai nhw fyddai'n cael eu heffeithio fwyaf. Fodd bynnag, roedd rhai pryderon mai oedolion oedd yr arbenigwyr ac mai nhw ddylai benderfynu.

04 Methodoleg

4.1 Grwpiau ffocws


Cafodd pob grŵp ffocws ei rannu'n dair adran. Roedd yr adran gyntaf yn canolbwyntio ar dri chwestiwn a osodwyd i wirio canlyniadau adroddiad Dyfodol Llwyddiannus 2014. Roedd hyn yn rhoi llais i ddysgwyr ynghylch yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw am eu haddysg a chyfle i drafod beth fyddai'n gwella eu profiad o ddysgu.

Rhannwyd y cyfranogwyr i grwpiau o 5 a gofynnwyd y cwestiwn 'beth yw'r pethau pwysicaf y dylech chi eu cael o'ch addysg?' iddyn nhw. Esboniodd gweithwyr Dynamix bob categori cyn gofyn i'r cyfranogwyr drefnu eu nodiadau gludiog i mewn i'r categorïau perthnasol yn unol â'r rheiny a sefydlwyd yn yr adroddiad Dyfodol Llwyddiannus.

Y gweithgaredd nesaf oedd pleidleisiau dot a llwyfan oedd yn ffordd syml, ddi-enw a di-iaith o asesu beth mae cyfranogwyr yn eu hystyried yw'r pethau gorau am eu haddysg. Cafodd pob person dri dot gludiog i bleidleisio ar y categorïau; Gwaith Ysgol, Ffrindiau, Staff, Hwyl, Teithiau Ysgol, Cyfleusterau, Awyrgylch, Cost, Amser Egwyl ac Arall. Ar ôl bwrw pleidlais, cyfrifodd gweithwyr Dynamix gyfanswm y pleidleisiau a chofnodi sylwadau'r cyfranogwyr am y tri chategori mwyaf poblogaidd.

Er mwyn i'r cyfranogwyr drafod pethau allai wella eu profiad o ddysgu cafodd Archarwr yr Ysgol ei greu. Nododd y cyfranogwyr pa faterion allai effeithio ar archarwr yr ysgol oedd yn rhoi llais iddyn nhw oedd bron yn anhysbys, i'w ddefnyddio i drafod heriau sy'n wynebu pobl ifanc mewn ysgolion. Yna ystyriodd y cyfranogwyr beth fyddai yn y maes grym er mwyn diogelu eu harcharwr rhag y materion a nodwyd. Roedd hyn yn gyfle i gynnig atebion ar y cyd gan gynnwys maes grym gwarchodol yr arwr.

Roedd yr adran nesaf yn canolbwyntio ar un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDPh).



04 Methodoleg

Defnyddiwyd cardiau fflach fel ffordd syml a chyson o gyflwyno'r cyfranogwyr i'r cwricwlwm newydd a'r MDPH y byddai hwnnw'n canolbwyntio arnyn nhw. Cwblhaodd pob grŵp gyfres o weithgareddau er mwyn rhoi eu mewnbwn i'r cwestiynau canlynol;

1. Pam ydych chi'n meddwl ei bod yn bwysig dysgu am y pethau hyn?
(Yn seiliedig ar ddisgrifiadau o'r MDPH)
2. Ydy'r datganiadau 'Beth sy'n bwysig' canlynol yn hawdd i'w deall?
3. Ydy'r esboniadau o'r datganiadau 'Beth sy'n bwysig' canlynol yn hawdd i'w deall?
4. Allwch chi gysylltu pam ei bod yn bwysig dysgu am y pethau hyn â'r datganiadau o'r arweiniad?

Er mwyn asesu dealltwriaeth y cyfranogwyr o'r datganiadau ac esboniadau 'Beth sy'n Bwysig', gofynnwn ni i'r bobl ifanc ddefnyddio cardiau goleuadau traffig i fwrw pleidlais dros ba mor hawdd oedd pob datganiad i'w ddeall, gan ddefnyddio cardiau sgwâr gwyrdd (deall yn llwyr), triongl melyn (deall ychydig) neu betryal coch (ddim yn deall). Cofnododd gweithwyr Dynamix y nifer o bleidleisiau y ogystal ag unrhyw sylwadau a wnaed. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr ysgrifennu'r rhesymau pam ei bod yn bwysig dysgu am MDPH penodol, yna gofynnwyd iddyn nhw gysylltu eu sylwadau â'r datganiad ac esboniad 'Beth sy'n Bwysig' perthnasol. Roedd hwn yn gyfle i'r bobl ifanc amlinellu'r hyn oedd yn bwysig iddyn nhw yn eu geiriau eu hunain.

Roedd adran olaf y sesiwn grŵp ffocws yn gofyn sut yr hoffai disgyblion fod yn rhan o lunio'r cwricwlwm newydd. Gofynnwn ni i'r cyfranogwyr sefyll ar y matiau wedi eu labelu'n 'hoffwn,' 'na hoffwn' ac 'efallai' er mwyn canfod a oedd diddordeb ganddyn nhw mewn helpu llunio'r cwricwlwm. Yna anogwyd y cyfranogwyr i roi rhesymau tu ôl i'w penderfyniad a chafodd yr holl sylwadau eu cofnodi gan weithwyr Dynamix. Rhoddodd y gweithgaredd olaf gyfle i'r cyfranogwyr fwrw pleidlais ar sut maen nhw eisiau bod yn rhan o lunio'r cwricwlwm. Galwon ni'r gweithgaredd yn 'Arian Byw'; cafodd un gwpan ar ddeg eu labelu â gwahanol ffyrdd o fod yn rhan o lunio'r cwricwlwm newydd, cafodd pob cyfranogwr un ar ddeg darn 1c i'w defnyddio i bleidleisio, a dangos sut yr hoffgen nhw gymryd rhan yn y dyfodol.



4.2 Holiadur Ar-lein

Roedd yr holiadur ar-lein yn gofyn y cwestiynau canlynol.

1. 'Beth yw'r pethau pwysicaf y dylech chi eu cael o'ch addysg?

Roedd hwn yn gofyn i'r cyfranogwyr roi sgôr 1 – 6 i bob categori (1 oedd y mwyaf pwysig a 6 oedd y lleiaf pwysig) ac yn gofyn a oes unrhyw beth ar goll o'r dewisiadau.

2. Beth yw'r tri pheth gorau am eich addysg?

3. Gwnewch restr o'r pethau sydd angen eu newid er mwyn gwella sut rydych chi'n dysgu a'ch profiad yn yr ysgol. Beth fyddai'n gwella addysg i chi? Rhestrwch gynifer ag yr hoffech.

4. Cafodd pob MDPH ei gyflwyno drwy roi dolen i fideo am bob maes i'r cyfranogwyr. Yna gofynnwyd iddyn nhw pam ei bod yn bwysig dysgu am y pethau hyn? Gallai cyfranogwyr ddewis ateb ynghylch un neu ragor o'r MDPH.


5. Yna gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oedden nhw'n meddwl ei bod yn bwysig bod dysgwyr yn cael dweud eu dweud am sut caiff y cwricwlwm ei lunio yn eu hysgol a sut yr hofffen nhw gymryd rhan.

04


Methodoleg

Hefyd gofynnwyd i'r cyfranogwyr nodi ym mha grŵp oedran roedden nhw ac ym mha sir roedden nhw'n byw – nid oedd y cwestiynau hyn yn orfodol.

Er mwyn mesur addasrwydd yr holiadur gofynnwyd iddyn nhw hefyd 'Faint waethoch chi fwynhau'r holiadur hwn?'



Faint waethoch chi fwynhau'r holiadur hwn?



04 Methodoleg

4.3 Pecyn cymorth

Roedd y pecyn cymorth yn darparu cyfarwyddiadau hawdd eu dilyn ar gyfer arweinwyr ieuentid i’w galluogi nhw i gynnal y grŵp ffocws heb Dynamix, ar amser oedd yn addas i’w grwpiau. Roedd hyn yn dilyn fformat y sesiynau grŵp ffocws a gallai arweinwyr ieuentid gynnal cyn lleied neu gynifer o’r gweithgareddau ag yr hoffon nhw. Gweler Atodiad 1 am gopi o’r pecyn cymorth

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
Cefnogaeth i'n cenedl | Our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae addysg yng Nghymru yn newid

Rydym eisiau eich adborth ar y cwricwlwm newydd


Sut mae cynnal grŵp ffocws i gasglu adborth plant a phobl ifanc ar y cwricwlwm newydd

05

Cyfranogwyr

Cynhaliwyd pedwar grŵp ffocws ar hugain gan Dynamix ledled Cymru o 17 Mehefin – 18 Gorffennaf 2019 mewn deg ysgol Gynradd, saith ysgol Uwchradd a saith grŵp â nodweddion gwarchoddedig. Roedd y grwpiau nodweddion gwarchoddedig yn cynnwys grwpiau anghenion dysgu ychwanegol, grŵp LGBTQ+, grŵp oedd â nam clyw, grŵp o bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ac ysgol grefyddol. Roedd tri grŵp ysgol Gynradd a dau grŵp Uwchradd yn cynnwys dros 50% o fyfyrwyr duon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Ni chasglwyd yr wybodaeth hon yn yr holiadur ar-lein.

Roedd y grwpiau ffocws yn dod o bob cwr o Gymru.



Darparodd cyfanswm o **423 o gyfranogwyr** adborth drwy'r holiadur ar-lein a'r grwpiau ffocws. Mae'r tabl isod yn dangos ymlediad daearyddol yr ymatebwyr.

05 Cyfranogwyr

Sir	Ar-lein	Grŵp ffocws
Caerdydd	9	68
Sir Gaerfyrddin	1	15
Ceredigion	0	18
Sir Ddinbych	1	28
Sir y Fflint	0	27
Sir Benfro	1	27
Powys	40	65
Abertawe	0	59
Bro Morgannwg	2	7
Blaenau Gwent	1	0
Pen-y-bont ar Ogwr	1	0
Caerphilly	2	0
Castell-nedd Port Talbot	2	0
Casnewydd	38	0
Torfaen	11	0
CYFANSWM	109	314

Cynigiwyd grwpiau ffocws i ddysgwyr ym mlynyddoedd 4, 5, 7, 8 a 9. Mae'r tabl isod yn dangos oedrannau'r ymatebwyr;

Oedrannau	Holiadur ar-lein	Grwpiau ffocws	CYFANSWM
10 oed ac iau	37	130	167
11-13 mlwydd oed	54	93	147
14-16 mlwydd oed	18	23	41
17-19 mlwydd oed	1	10	11
20 mlwydd oed a hŷn	3	4	7

Noder; Ni ddarparodd pob ymatebwr ei oedran.

05

Cyfranogwyr

O'r rheiny a ymatebodd i'r holiadur dim ond dau lenwodd yr holiadur yn Gymraeg. Cynhaliwyd tri o'r grwpiau ffocws mewn ysgolion Cymraeg a chynhaliwyd un yn ddwyieithog. Cafodd pob ysgol ddewis cael sesiwn Gymraeg, Saesneg neu ddwyieithog.

Derbyniwyd pump ymateb o'r pecyn cymorth. Roedd un gan ysgol uwchradd ym Mro Morgannwg, un o ddigwyddiad Sipsiwn, Teithwyr a Romani a fynychwyd gan ddau grŵp ysgol uwchradd, un gan grŵp â nam clyw o ogledd Cymru a dau gan ysgolion Cymraeg (un ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin ac un ysgol uwchradd yng Nghlwyd).



06

Canlyniadau: Fy addysg

Dyma'r ymatebion a roddwyd gan blant a phobl ifanc yn y cyfnod adborth. Cafwyd ystod eang o ymatebion. Mae'r rhain wedi cael eu categorio i roi trosolwg a thynnu sylw at themâu. Ar gyfer rhai cwestiynau categorioedd y cyfranogwyr eu hatebion eu hunain a gwnaed hyn gan Dynamix ar gyfer rhai cwestiynau eraill. Mae detholiad o ddyfyniadau gan bobl ifanc wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn.

6.1

'Beth yw'r pethau pwysicaf y dylech chi eu cael o'ch addysg'?

Grwpiau ffocws

1	Gwybodaeth	205
2	Sgiliau ar gyfer gwaith	197
3	Arall	153
4	Iechyd a ffitrwydd	139
5	Cyfeillgarwch	130
6	Sgiliau cymdeithasol ac ymddygiad cymdeithasol	116
7	Hyder	59

Yn ystod y grwpiau ffocws, gofynnwyd i'r cyfranogwyr nodi'r pethau oedd bwysicaf iddyn nhw a'u categorio o dan yr un penawdau, sef Gwybodaeth, Sgiliau ar gyfer gwaith, Iechyd a ffitrwydd, Cyfeillgarwch, Sgiliau cymdeithasol ac ymddygiad cymdeithasol, Hyder neu Arall. Mae'r tabl isod yn dangos sawl gwaith y cyfeiriwyd at bob categori yn yr ymarfer hwn yn ystod y grwpiau ffocws.

Gwybodaeth gafodd ei chrybwyll amlaf ym mhob grŵp ffocws ac roedd yn cynnwys cyfeiriadau at bynciau, yr angen am farciau da i gael swydd, syniadau, dysgu am y byd, gwneud dysgu'n hwyl ac yn addas i bawb a sgiliau bywyd. Soniodd un grŵp hŷn â nodweddion gwarchoddedig am bwysigrwydd gwneud addysg yn berthnasol i fywyd, er enghraifft gwybodaeth ynghylch treth a thalu biliau, gwleidyddiaeth, materion cyfoes a gallu ffurfio barn.

Roedd sgiliau ar gyfer gwaith yn bwysig i bob grŵp gymerodd ran. I nifer roedd hyn yn ymwneud â dysgu sgiliau newydd, cymryd cyfrifoldeb, cynllunio ar gyfer y dyfodol, cael profiadau bywyd, paratoi am y byd go iawn a gallu cael swydd dda er mwyn ennill arian. Roedd gwneud ffrindiau a bod yn

06

Canlyniadau: Fy addysg

gymdeithasol hefyd yn cael eu gweld fel sgil ar gyfer gwaith. Rhestrwyd TG, coginio, Addysg Gorfforol, celf, cerddoriaeth, darllen, ysgrifennu, mathemateg a chymwysterau'n gyffredinol fel sgiliau pwysig ar gyfer gwaith. Roedd pob grŵp yn teimlo bod hyn yn bwysig ac nid oedd gwahaniaeth amlwg rhwng y gwahanol grwpiau oedran.

'Fy mod i'n dysgu pethau angenrheidiol i fy helpu i gael fy swydd ddelfrydol yn y dyfodol'

'Dysgu sgiliau defnyddiol sydd eu hangen i ddatblygu mewn bywyd, pethau sy'n ymwneud â phethau fel busnes, y llywodraeth ac arian.'

Roedd nifer o elfennau pwysig o addysg dysgwr nad oedd yn ffitio i'r un o'r categorïau. Enwyd athrawon penodol fel rhywbeth oedd yn bwysig i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Roedd teithiau ysgol yn cael eu cynnwys ar gyfer plant Cynradd. Ar gyfer disgyblion Uwchradd roedd 'parch' yn cael ei gynnwys yma hefyd yn ogystal â phwysigrwydd cael pobl i ymweld â'r ysgol i rannu eu profiadau. Nododd aelodau grŵp y senedd ieuenctid fod y canlynol yn bwysig yn y categori hwn;

'Gwnewch yr adroddiad yn lliwgar fel ei fod yn denu sylw pobl ifanc'

'Mynediad at ieithoedd tramor/ail iaith o oedran ifanc'

'Addysg gyflawn ynghylch integreiddio diwylliannol'

'Codio mewn ysgolion cynradd ac uwchradd'

Mae iechyd a ffitrwydd hefyd yn elfen bwysig o addysg dysgwr. Roedd hyn yn cynnwys bwyd, ffitrwydd, addysg rhyw, meddwlgarwch, chwarae a bod yn yr awyr agored. Nododd un grŵp ei bod yn bwysig bod addysg rhyw'n cynnwys addysg rhywedd a bod pob rhyw yn cael yr un addysg, fel bod pawb yn deall ac yn derbyn cyrff a phenderfyniadau ei gilydd.

06

Canlyniadau: Fy addysg

Holiadur ar-lein: Gofynnwyd i'r cyfranogwyr sgorio elfennau o'u haddysg ar raddfa o 1 – 6 (1 oedd y mwyaf pwysig a 6 oedd y lleiaf pwysig). 'Iechyd a Ffitrwydd' oedd y pwysicaf' a'r lleiaf pwysig oedd 'Gwybodaeth'.

1	Iechyd a ffitrwydd
2	Hyder
3	Sgiliau cymdeithasol ac ymddygiad cymdeithasol
4	Sgiliau ar gyfer gwaith
5	Cyfeillgarwch
6	Gwybodaeth

Mae'r tabl yn dangos sut y sgoriwyd pob categori gan y cyfranogwyr yn yr holiadur. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr hefyd a oedd unrhyw beth ar goll o'r categorïau hyn, a dywedon nhw;

- Helpu pobl, hapusrwydd a charedigrwydd
- Gwydnwch
- Ymwybyddiaeth amgylcheddol ac ymwybyddiaeth eco
- Cael eu haddysgu'n dda gan athrawon brwdfrydig sy'n adnabod eu pwnc

Pecyn cymorth: Atebodd y rheiny a ymatebodd gan ddefnyddio'r pecyn cymorth y cwestiwn hwn drwy ddarparu rhestr o'r pethau oedd yn bwysig i bobl ifanc ynghylch eu haddysg. Dim ond un grŵp gategoreiddiodd eu hatebion eu hunain, mae'r lleill wedi cael eu categoreiddio gan Dynamix.

Arall	19
Gwybodaeth	18
Iechyd a ffitrwydd	18
Sgiliau cymdeithasol ac ymddygiad cymdeithasol	14
Sgiliau ar gyfer gwaith	12
Hyder	8
Friendship	5

Roedd yr atebion yn y categori 'Arall' yn ymwneud yn bennaf â sgiliau bywyd fel cyllidebu ac arian. Roedd rhai'n cynnwys gweithgareddau eco, siarad Cymraeg a dewisiadau gwisg ysgol. Roedd 'Gwybodaeth' i'r ymatebwyr hyn yn cynnwys teithiau addysgiadol, dysgu sgiliau newydd, mathemateg a chlybiau astudio. Roedd 'Iechyd a ffitrwydd' yn cynnwys addysg rhyw ac ABCh yn ogystal â dysgu sut i goginio, glendid personol ac ymwybyddiaeth o iechyd meddwl. O dan Sgiliau cymdeithasol ac ymddygiad cymdeithasol, y pethau pwysig oedd cyfeillgarwch, bod yn garedig i eraill a sgiliau cyfathrebu.

6.2

Beth yw'r tri pheth gorau am eich addysg?

Grwpiau ffocws

1. Ffrindiau
2. Hwyl
3. Gwaith ysgol
4. Teithiau ysgol
5. Cyfleusterau
6. Staff
7. Amser egwyl
8. Cost (addysg am ddim)
9. Awyrgylch – y teimlad mae'r ysgol yn ei roi i chi
10. Arall

Ffrindiau yw'r peth gorau am addysg i nifer o gyfranogwyr y grwpiau ffocws gan eu bod yn helpu gyda iechyd meddwl, lleihau straen, rhoi rheswm i fynd i'r ysgol, maen nhw'n cymell, yn difyrru, gwella hyder a hunanbarch, helpu gyda bwlio ac mae ffrindiau yn para.

'Os nad oedd gennych chi ffrindiau yn yr ysgol byddech chi'n teimo'n ddiflas ac yn isel'

'Maen nhw'n eich dysgu i fyw mewn cymuned amrywiol'

'Helpu gyda phroblemau/pryderon, gwell siarad â ffrindiau nag athrawon'

Roedd cael hwyl yn yr ysgol yn bwysig iawn i nifer o'r cyfranogwyr gan ei fod yn caniatáu gwahanol ffyrdd o ddysgu, helpu pobl i ddysgu mwy, magu hyder a lleihau straen.

'Os oes problemau gennych chi gartref, gallai cael hwyl yn yr ysgol eich helpu i ddelio â nhw'

'Byddai diffyg hwyl yn eich stopio chi rhag mynd i'r ysgol, byddech chi'n teimlo'n ddiflas a ddim eisiau mynd'

Gwaith ysgol oedd un o'r 3 pheth mwyaf poblogaidd am addysg ond dim ond y peth pwysicaf un mewn un ysgol uwchradd. Mae pwysigrwydd gwaith ysgol i nifer o'r cyfranogwyr yn ymwneud â'r potensial am swyddi a gyrfaoedd yn y dyfodol. Nodwyd mai cael clod am waith da oedd y rheswm bod gwaith ysgol yn bwysig iddyn nhw. Gwnaed rhai sylwadau ynghylch pwysau gwaith cartref a sut mae hyn yn effeithio ar bobl ifanc.

**'Dilynwch y Ffindir – a chynhyrchu'r bobl fwyaf deallus.
Does dim gwaith cartref yno, mae'n gwneud i'r straen ddiflannu
ac yn rhoi teimlad hapusach ynghylch yr ysgol'**

**'Rydych chi'n cael gwaith cartref ac yn gwneud gwaith
yn yr ysgol hefyd. Rydyn ni'n gweithio ddigon yn yr ysgol.'**

Holiadur ar-lein

Gofynnwyd i'r rheiny atebodd y cwestiwn hwn ar yr holiadur ar-lein i nodi eu tri hoff beth am eu haddysg. Dyma drefn y categorïau ar ôl casglu'r holl atebion;

1. Ffrindiau
2. Gwaith ysgol
3. Teithiau ysgol
4. Hwyl
5. Awyrgylch – y teimlad mae'r ysgol yn ei roi i chi
6. Amser egwyl
7. Staff
8. Cost (addysg am ddim)
9. Cyfleusterau
10. Arall

Ffrindiau yw un o'r pethau gorau am addysg ar gyfer cefnogaeth, gwneud pethau'n hwyl a chymdeithasu. Dywedodd un cyfranogwr y byddai:

**'Ysgol heb ffrindiau
yn annioddefol'**

Gwaith ysgol oedd un o'r pethau gorau am addysg er mwyn gallu cael swydd yn y dyfodol, dysgu pethau newydd a gwneud yn dda.

Teithiau ysgol oedd un o'r pethau gorau am addysg i nifer o gyfranogwyr yr holiadur. I nifer roedden nhw'n ymwneud â rhannu profiadau gyda ffrindiau a mynd i leoedd newydd;

‘Mae mynd ar deithiau ysgol sy’n hwyl ac yn addysgiadol yn gwneud bywyd ysgol yn fwy pleserus. Gallwch chi hefyd dreulio amser gyda ffrindiau ac ehangu eich gwybodaeth.’

I un cyfranogwr roedd teithiau ysgol yn rhoi cyfleoedd na fyddai’n eu cael fel arall;

‘Dwi’n eu mwynhau nhw, oherwydd dydyn ni ddim wir yn mynd i lawer o leoedd gartref’

Pecyn cymorth

Nododd un ymateb i’r pecyn cymorth mai gwaith ysgol oedd un o’r pethau gorau am addysg gan mai dyna’r ‘rheswm dros yr ysgol’, ei fod yn datblygu hyder ac yn rhoi cyfleoedd ar gyfer y dyfodol. Y staff oedd yr ail beth gorau gan fod y ‘berthynas gydag athrawon yn effeithio ar addysg’. Y trydydd peth gorau oedd hyder i siarad â phobl, gallu bod yn chi eich hun ac ymlacio yn ogystal â chael hwyl a theimlad o berthyn.

Ni dderbyniodd un grŵp y pecyn cymorth mewn pryd ond rhoddon nhw’r adborth canlynol;

Beth ydych chi’n ei hoffi orau am yr ysgol?

**‘Celf a Saesneg, darllen fy llyfr amser cinio’
‘hanes, ffrindiau a darllen,’
‘Amser egwyl a chinio... bod gyda fy ffrindiau’**

Beth ydych chi’n ei hoffi leiaf am yr ysgol?

**‘Myfyrwyr a mathemateg ac Addysg Gorfforol ac ieithoedd, dwi ddim yn hoffi’r myfyrwyr eraill oherwydd eu bod yn rhy swnllyd ac yn gweiddi gormod’
‘Daaryddiaeth, bwllis a Chymraeg’
‘Mae cosbau’r ysgol yn codi ofn arna’i. Dwi erioed wedi cael un ond mae cael fy ynysu yn codi ofn arna’i... Dwi ddim yn hoffi tawelwch.’**

6.3

Beth sydd angen ei newid i wella'r ffordd rydych chi'n dysgu a'ch profiad o ddysgu?

Grwpiau ffocws

Yn ystod y grwpiau ffocws gofynnwyd i'r cyfranogwyr ddychmygu aelod arall o'r grŵp a meddwl pa fath o faterion fyddai'n effeithio ar y ffordd y byddai'r person hwnnw'n dysgu. Yna gofynnwyd iddyn nhw pa fath o bethau allai ddiogelu rhag y materion hyn. Roedd y dull hwn yn galluogi'r dysgwyr i droi unrhyw broblemau sydd ganddyn nhw'n rhai anhysbys a siarad amdany'n nhw'n rhwyddach wrth gyfeirio at drydydd person. Nod y gweithgaredd oedd annog disgyblion i feddwl am y pethau sydd angen eu newid er mwyn gwella eu haddysg.

Materion sy'n effeithio ar y ffordd rydyn ni'n dysgu

Bwlio	42	Cyfeillgarwch	15
Athrawon	26	Ddim yn deall	14
Dylanwadau gan gyfoedion	25	Iechyd	13
Iechyd Meddwl	22	Dim diddordeb	13
Materion teuluol	19	Anawsterau dysgu	12
Amgylcheddol	17	Arian	6
Hyder	16	Camdrin	4
Other			35

Catgoreiddiwyd y **Materion** gan Dynamix, maen nhw wedi eu rhestru yma gyda'r nifer o weithiau y cyfeiriwyd atyn nhw yn ystod y grwpiau ffocws.

Cyfeiriwyd at fwlio fel term cyffredinol ond hefyd o ran hiliaeth a homoffobia. Nid yn unig bwlio wyneb yn wyneb ond hefyd achosion ar gyfryngau cymdeithasol, ar-lein, dros y ffôn a thrwy lythyr.

Mae hyn yn achosi...

'Embaras – mae pobl sy'n chwerthin ar ei phen yn ei hatal rhag dysgu'.

Cyfeiriodd dysgwyr mewn uned anghenion dysgu ychwanegol at eu profiadau nhw hefyd;

‘Mae plant eraill yn ein bwlio ni am fod yn y dosbarth hwn – maen nhw’n ein galw ni’n dwp’.

Roedd materion a achosir gan athrawon yn aml yn gysylltiedig ag agwedd a safonau;

**‘Athrawon nad ydynt yn egluro’n dda’
‘Mae’r athro yn fy mwlio neu’n pigo arna’i’
‘Gwrthdaro â phersonoliaethau athrawon’
‘Addysgu gwael’**

‘Bygwth fy nghadw ar ôl ysgol am fod yn rhy hoyw yn y dosbarth’.

Mae dylanwadau gan gyfoedion fel arfer yn achosi ymddygiad sy’n tarfu ar eraill sy’n cael effaith at brofiad eraill o ddysgu.

Ymysg y materion iechyd meddwl y cyfeiriwyd atynt roedd iselder, gorbryder, pryderon, hyder a straen. Mae pob un yn gallu effeithio ar addysg. Cydnabyddwyd bod materion teuluol yn cael effaith ar ddysgwyr yn yr ysgol ac y gallai straen a achosir gan brofedigaeth, cyfrifoldebau gofalu neu fethiant teuluol achosi problemau i ddysgwyr. Nodwyd camdrin yn y cartref fel problem hefyd.

Gall amgylchedd corfforol dysgwyr yn yr ysgol gael effaith arnyn nhw. Mae hyn yn cynnwys tymheredd dosbarthiadau a gofynion gwisg ysgol.

‘Dydyn ni ddim yn cael tynnu ein blasers mewn gwasanaethau nac arholiadau’

Mae gwaith adeiladu mewn ysgolion yn cael effaith yn ogystal ag offer sydd wedi torri a gorlenwi. Mae lefelau sŵn mewn dosbarthiadau’n cael hyd yn oed mwy o effaith ar y rheiny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Nodwyd diffyg ffrindiau, ffraeo gyda ffrindiau ac unigrwydd fel problemau.

Ystyriwyd iaith, diwylliant a bod yn ffoadur fel materion. Mae bod yn llwglyd, diffyg cwsg, arian a gorfod cerdded yn bell i'r ysgol i gyd yn faterion sy'n gysylltiedig â thlodi roedd y cyfranogwyr yn teimlo y gallai rhai dysgwyr fod yn eu hwynebu bob dydd.

Diogelu rhag problemau/sut i wella'r profiad o ddysgu

Amgylcheddol; Byddai hyn yn cynnwys aerdymheru a ffilteri aer i reoli tymheredd y dosbarth. O ran sŵn awgrymwyd y gellid darparu 'clustffonau sy'n diogelu clustiau' ac y gellid newid 'cloch yr ysgol'. Roedd hyn yn broblem i ddysgwyr mewn unedau anghenion dysgu ychwanegol a'r rheiny â nam clyw yn enwedig, ac mae angen mwy o ddealltwriaeth ynghylch effaith sŵn cefndirol i'r dysgwyr hynny. Cafwyd awgrym arall y dylai fod '10 munud o amser tawel i ganolbwyntio' mewn gwersi. Awgrymwyd bod angen mwy o gysgod yn y manau awyr agored a mwy o le i gael hwyl.

Rheolau'r ysgol; Roedd yr awgrymiadau a wnaed o dan y pennawd hwn yn ymwneud yn bennaf â rheolau'r ysgol ar daclo bwlio drwy gael polisi goddef dim a gorfodi rheolau dibynadwy. Gwnaed un awgrym i sefydlu 'polisiau statudol ar gyfer POB ysgol er mwyn osgoi tlodi ar sail rhyw' drwy gael polisi mwy cyson ym mhob ysgol wedi ei ysgrifennu gan y rheiny sy'n cael eu heffeithio gan y materion hyn. Gwnaed awgrym arall i gael mwy o hyblygrwydd gyda rheolau gwisg ysgol – yn enwedig mewn tywydd eithafol.

Profiadau; Roedd yr awgrymiadau hyn ynghylch creu profiadau positif er mwyn gwella dysgu. Roedd hyn yn cynnwys mwy o deithiau, ymwelwyr â'r ysgol (fel yr heddlu) a threulio mwy o amser tu allan.

Athrawon; Gellid gwneud gwelliannau ar gyfer dysgwyr â nam clyw ac anghenion dysgu ychwanegol drwy gael gwell dealltwriaeth o'u hangenion gan athrawon a'u bod nhw'n addasu eu gwersi i fod yn fwy cynhwysol drwy arafu wrth egluro pethau a bod yn fwy hyblyg wrth ganiatáu ffrindiau i eistedd gyda'i gilydd fel y gallan nhw helpu ei gilydd.

Llais y disgybl; Roedd dysgwyr yn teimlo bod angen gwranddo arnyn nhw'n fwy, bod angen iddyn nhw leisio barn ynghylch penderfyniadau oedd yn effeithio arnyn nhw a thrafod materion byd-eang.

Gwersi; Gellid gwella gwersi drwy eu gwneud yn fwy deniadol, hwyl a hamddenol. Ar gyfer disgyblion cynradd roedd awgrym bod angen llai o dechnoleg mewn gwersi. Nodwyd hefyd y byddai gwneud mwy o weithgaredd corfforol a chael cyfle i dreulio mwy o amser tu allan yn gwella gwersi.

Cefnogaeth; Gwnaed bron i 90 o awgrymiadau yn y categori hwn er mwyn gwella amgylchedd dysgu ar gyfer dysgwyr oedd yn wynebu problemau yn yr ysgol. Roedd nifer o'r awgrymiadau a wnaed yn ymwneud â chael rhywun i siarad ag ef/hi – un ai athro/athrawes, ChildLine, cwnselydd, ffrindiau, teulu, cefnogaeth anffurfiol gan grwpiau o gyfoedion neu gael lle diogel i siarad. Awgrymwyd hefyd bod angen mwy o gefnogaeth a hyfforddiant ar athrawon i allu darparu'r math o gefnogaeth sydd ei hangen ar blant a phobl ifanc.

Hyder; Awgrymwyd bod angen i ddysgwyr fagu hyder i allu delio gyda phroblemau. Gellid gwneud hyn drwy siarad â rhieni neu gwnselydd neu roi clod er mwyn rhoi hwb i'w hyder.

Holiadur ar-lein

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr 'wneud rhestr o'r pethau sydd angen eu newid er mwyn gwella sut rydych chi'n dysgu a'ch profiad yn yr ysgol'. Mae'r atebion a roddwyd wedi cael eu categorioeddio a'u rhestru isod yn ôl y nifer o weithiau y cyfeiriwyd atynt mewn ymatebion;

Safle	Categori	Sylwadau
1	Y ffordd rydyn ni'n dysgu	'gwneud dysgu'n fwy o hwyl, cael mwy o gefnogaeth, mwy o ddiwrnodau arbennig, mwy o amser i ddysgu' 'Gallen ni ddefnyddio Addysg Gorfforol i greu gwersi' 'Dysgu yn ei gyd-destun' 'Gweithio mwy mewn grwpiau fel y gallwn ni rannu syniadau ein gilydd'
2	Strwythur y diwrnod ysgol	'Rydw i wastad yn flinedig, hoffwn ddechrau'r ysgol yn hwyrach a gorffen yn hwyrach fel fy mod i a nifer o fyfyrwyr eraill yn effro.' 'Toriadau hirach – mae hyn y golygu mwy o amser i fwyta ac ailbaratoi eich ymenydd yn barod i weithio a rydych chi hefyd y cael amser i ymlacio yn ystod y diwrnod 6 awr'
3	Disgyblion eraill	'Mae ymddygiad yn dueddol o waethygu pan fo athrawon cyflenwi gennyn ni. Mae pobl yn camfihafio ac mae'n anoddach dysgu' 'Rydw i eisiau gwella fy nysgu drwy: dim byd yn tynnu sylw, mwy o help gan athrawon'

06

Canlyniadau: Fy addysg

Safle	Categori	Sylwadau
4	Pynciau	'Mwy o wersi am y pethau sy'n bwysig iawn, iawn' 'annog gyda cherddoriaeth'
5	Athrawon	'Gallu dweud wrth athro os yw'n bod yn annheg gyda chi heb iddo eich cosbi am ddweud..' 'Athrawon i fod â dealltwriaeth ynghylch iechyd meddwl a bod yn hyblyg' 'Athrawon i fod yn deg, gwaith hwyl, toriadau rhwng gwersi'
6	Offer	'Mwy o ipads sy'n gweithio' 'Mwy o bethau i chwarae â nhw yn ardal yr adran iau'
7	Cyfleusterau	'bwyta tu allan gan fod byrddau picnic nad ydynt yn cael eu defnyddio a dim ond lle i ryw 300 o fyfyrwyr sy'n y neuadd, felly mae'r 700 arall yn cael eu cosbi am fwyta tu allan, neu does dim clem ganddyn nhw beth i'w wneud' 'Mwy o ffynhonnau dŵr yn yr ysgol'
8	Ei wneud yn hwyl	'Pob gwrs i fod yn hwyl, creadigol, rhyngweithiol a diddorol'
9	Awyrgylch	'Awyrgylch mwy cyfeillgar nad yw'n canolbwyntio ar arholiadau a marciau'n unig'
10	Hyder	'Hoffwn ganolbwyntio'n fwy a bod yn fwy hyderus yn y pynciau dwi'n cael trafferth â nhw'
11	Awyrgylch	'Cael tynnu ein blasers pryd bynnag rydyn ni eisiau'
12	Bwlio	'Gellid delio â bwlio yn well yn fy ysgol. Mwy o bobl i helpu os oes rhywun yn gas'
13	Llais y disgybl	'Cael dewis eich amserlen. Dwi'n sicr nad yw i am gymryd Addysg Grefyddol felly pam gwastraffu dwy wers yr wythnos ar hynny pan y gallwn fod yn dysgu rhywbeth dwi'n ei fwynhau ac eisiau ei wneud' 'Dylen ni gael penderfynu mwy ynghylch ein haddysg, ym mhob ysgol'
14	Dim byd	'Nid oes angen gwella unrhyw beth!

Pecyn cymorth

Nodwyd bod diffyg dealltwriaeth ynghylch anghenion plant a phobl ifanc â nam clyw, bod synau uchel yn gallu effeithio ar eu gallu i glywed cyfarwyddiadau;

‘Pan mae’r dosbarth yn swnllyd iawn dwi ddim yn gallu canolbwyntio na deall beth mae’r athro’n ei ddweud felly weithiau dwi ddim yn deall y gwaith’

‘Dwi’n ypsetio pan nad yw’r athrawon yn defnyddio’r FM yn iawn oherwydd mae’n brifo fy nghlustiau, fel pan maen nhw’n gweiddi a ddim yn ei ddiffodd, neu pan maen nhw’n gwisgo laniard ac yn cerdded o gwmpas, mae’n gwneud sŵn o hyd’

‘mae’r ystafell ddrama, y neuadd a’r neuadd chwaraeon yn ofnadwy, yn rhy swnllyd a dwi’n methu clywed yr athrawes’

This could be improved for these learners if there was more understanding from both teachers and other learners;

‘Mae’n syniad da i rai disgyblion fod ag ymwybyddiaeth o fod yn fyddar fel nad ydyn nhw’n gofyn cwestiynau i mi, ond dim gormod achos dwi ddim yn hoffi cael gormod o sylw’

For a group of Secondary school pupils in a Welsh language school some of the issues faced are

‘rhywun yn pigo arna’i o flaen yr athrawon a’r athrawon yn talu dim sylw, teimlo bod angen ffitio i mewn, dewisiadau bywyd, ffrindiau, gwersi, TGAU, poeni am waith cartref, bod ofn gofyn, cael trafferth gyda’r gwersi, bwlio a chael eich bwlio oherwydd pwy yw eich ffrind neu eich partner.’

This could be improved with

‘sesiynau/gweithgareddau ar sut i adolygu, sicrhau dealltwriaeth, magu/hybu hyder, sicrhau eich bod yn gwrando ar ddwy ochr stori, gall myfyrwyr fagu hyder, gwybod am y problemau mewn grwpiau, cysylltu â’r cartref /asiantaethau allanol/athrawon priodol, ymateb i fyfyrwyr, dylai myfyrwyr allu bod yn nhw eu hunain a chael hawl i leisio barn a mwy o fewnbwn gan fyfyrwyr.’

07

Canlyniadau: Meysydd Dysgu a Phrofiad

Roedd pob grŵp ffocws yn trafod un MDPH a gofynnwyd yr un cwestiynau iddyn nhw. Roedd yr holiadur ar-lein a'r pecyn cymorth yn rhoi opsiwn i'r ymatebwyr ddewis ar ba MDPH i ateb cwestiynau.

1. Pam rydych chi'n meddwl ei bod yn bwysig dysgu am y pethau hyn?
2. Ydy'r datganiadau 'Beth sy'n bwysig' canlynol yn hawdd i'w deall?
3. Ydy'r esboniadau o'r datganiadau 'Beth sy'n bwysig' canlynol yn hawdd i'w deall?
4. Allwch chi gysylltu pam rydych chi'n meddwl ei bod yn bwysig dysgu am y pethau hyn â'r datganiad o'r arweiniad?

Roedd yn glir o'r grwpiau ffocws bod y datganiadau 'Beth sy'n bwysig' yn anodd eu deall i blant a phobl ifanc. Yn ystod yr ymarfer cyntaf sylwyd bod rhai cyfranogwyr yn ymddangos fel petaent yn poeni am gyfaddef os nad oedden nhw'n deall, ond pan eglurwyd ei bod yn iawn iddyn nhw beidio â deall y datganiadau, roedden nhw'n fwy agored gyda'u barn. Roedd yn haws i'r grwpiau ddeall yr esboniadau o'r datganiadau gan eu bod yn teimlo bod yr iaith a ddefnyddiwyd yn fwy eglur. Mae'r canlyniadau llawn i'w gweld yn atodiad 2. Dyma rai o'r sylwadau a wnaed;

'Esboniad – mae'n iaith hollol wahanol, roedd yr un olaf mor gymhleth ac mae hwn yn addas i blant'

'Esboniad: dwi'n deall nawr!'

'Beth yw ystyr 'amrywiol' a 'dynamig'?''

'Dwi'n deall datganiad Llywodraeth Cymru, ond dwi ddim yn meddwl y byddai plant iau yn ei ddeall. Byddai Bl.4 fwy na thebyg yn cael trafferth ac yn meddwl ei fod yn rwdl-mi-ri.'

'Fyddai myfyrwyr ifanc ddim yn deall ystyr atomig, dwi ddim yn ei ddeall, hyd yn oed'

'Dwi ddim yn deall rhai o'r geiriau, maen nhw'n rhy gymhleth'

'Cyfrifiant? Algorithmu? Rhy anodd a rhy gymhleth'

'Roedd yr esboniad yn help mawr. Mae enwi'r pwnc e.e. celf wedi helpu i wneud synnwyr ohono'

'Mae'r datganiad yn anodd iawn i'w ddeall'

'Roedd un neu ddau air nad oedden ni'n eu deall'

'Roedd yr esboniad yn help mawr'

7.1

Beth sy'n bwysig ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad i blant a phobl ifanc

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr ddisgrifio yn eu geiriau eu hunain pam eu bod yn teimlo ei bod yn bwysig dysgu am bob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad.

Mae Dynamix wedi crynhoi'r ymatebion er mwyn datblygu'r datganiadau canlynol gan ddefnyddio geiriau pobl ifanc i ddisgrifio 'beth sy'n bwysig' i blant a phobl ifanc ar gyfer pob MDPH.

1. Mae'r **Celfyddydau Mynegiannol** yn ein helpu ni i fod yn fwy hunanhyderus, cryf a chreadigol. Gallwn ni fynegi ein hemosiynau drwy ein sgiliau creadigol heb orfod defnyddio geiriau. Rydyn ni'n profi ac yn dysgu am greadigrwydd pobl eraill. Mae'n rhoi sgiliau inni y gallen ni eu defnyddio pan fyddwn ni'n oedolion neu'n chwilio am waith.
2. Mae'r **Dyniaethau** yn ein helpu ni i ddysgu o ble rydyn ni'n dod ac am y byd o'n cwmpas. Drwy ddeall beth sydd wedi digwydd yn y gorffennol gallwn ni ddysgu o gamgymeriadau sydd wedi cael eu gwneud a helpu diogelu ein dyfodol. Mae'n ein helpu ni i ddeall pobl eraill: eu credoau, cymdeithasau a diwylliannau, mae'n gwella ein sgiliau cymdeithasol, ac yn ein helpu ni i gwestiynnu beth sy'n iawn ac yn anghywir. Mae'n rhoi ystod eang o sgiliau inni fydd yn ein helpu ni i gael swydd yn y dyfodol.
3. Mae **Iechyd a Lles** yn ein helpu ni i fyw bywyd iach a pham bod edrych ar ôl ein meddyliau a'n cyrff yn bwysig (iechyd corfforol a meddyliol). Mae'n datblygu ein gwydnwch fel y gallwn ni adfer ar ôl cyfnodau anodd ac yn rhoi'r sgiliau inni ddelio â phroblemau, fel ein bod ni'n gwybod pryd i ofyn am help ac i bwy i ofyn. Rydyn ni'n dysgu sut i gyfathrebu ein hemosiynau'n iawn. Mae'n ein helpu ni i fod yn fwy goddefgar o sefyllfaoedd a theimladau pobl eraill. Mae'n ein paratoi ni at y dyfodol ac at brofiadau'r byd ehangach.
4. Mae **Gwyddoniaeth a Thechnoleg** ym mhobman; mae wastad yn datblygu a newid ein byd, mae'n ein helpu ni i ddeall y byd ehangach a sut mae pethau'n gweithio. Mae deall y pethau hyn yn golygu y gallwn ni droi syniadau newydd yn realiti yn y dyfodol. Mae'n gwella ein hopsiynau yn y coleg a'r brifysgol gan ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn cynifer o swyddi.

5. Mae **Mathemateg a Rhifedd** yn sgil bywyd sylfaenol rydyn ni'n ei defnyddio mewn nifer o sefyllfaoedd bob dydd: cyllid, deall data, siopa, mesur, amser, coginio, adeiladu a.y.y.b. Mae hefyd yn ein helpu ni i ddysgu pynciau eraill ac yn ein paratoi ni at nifer o swyddi. Mae'n ein helpu ni i ddatrys problemau a deall y byd yn well.
6. Mae **Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu** yn ymwneud â gallu cyfathrebu'n dda â phobl o'n cwmpas a phobl o bob cwr o'r byd. Mae'n golygu y gallwn ni deithio i wledydd eraill a deall pobl, gall hefyd ein helpu ni i gael swyddi sy'n gofyn am fwy nag un iaith. Rydyn ni'n dysgu darllen llyfrau a deall y byd o'n cwmpas. Mae'n ein gwneud ni'n fwy uchelgeisiol ac yn llawn cymhelliad oherwydd ein bod ni'n gallu deall mwy.



08

Canlyniadau: Bod yn rhan o lunio'r cwricwlwm

8.1

Hoffech chi fod yn rhan o lunio'r cwricwlwm yn eich ysgol chi?


Grwpiau ffocws

Roedd mwyafrif cyfranogwyr y grwpiau ffocws yn cytuno yr hoffon nhw helpu llunio cwricwlwm eu hysgol. Gofynnwyd i'r dysgwyr wneud sylwadau ar eu dewisiadau.

Gwnaed 120 o sylwadau.

O'r rhain gwnaeth dros 40% sylwadau oedd yn cefnogi'r syniad o blant a phobl ifanc yn bod yn rhan o lunio'r cwricwlwm. Gwnaed 29 o sylwadau am bwysigrwydd gwrando ar blant a phobl ifanc a chynnwys eu barn ynghylch sut caiff y cwricwlwm ei lunio. Gwnaed 20 o sylwadau ynghylch pwysigrwydd cynnwys pobl ifanc gan mai nhw sy'n cael eu dysgu ac mae angen iddyn nhw fod yn rhan o wneud penderfyniadau gan mai nhw yw'r arbenigwyr ar eu haddysg eu hunain.

Doedd 20% o'r sylwadau ddim yn cefnogi cynnwys plant a phobl ifanc wrth lunio'r cwricwlwm. Gwnaed 13 o sylwadau mai oedolion ac athrawon oedd y bobl orau i wneud penderfyniadau a gwnaed 9 o sylwadau oedd yn honni na fyddai plant a phobl ifanc yn ei gymryd ddigon o ddifrif neu nad oedden nhw'n ddigon aeddfed i wneud y penderfyniadau hyn.




Roedd ambell gyfranogwr yn teimlo na fyddent yn cael eu cymryd o ddifrif neu na fyddai unrhyw un yn gwrando arnynt petaen nhw'n lleisio eu barn. .

08

Canlyniadau: Bod yn rhan o lunio'r cwricwlwm

Holiadur ar-lein

Dyweddodd dros 80% o ymatebwyr yr holiadur ar-lein yr hofffen nhw fod yn rhan o lunio'r cwricwlwm. Ni ddywedodd unrhyw un nad oedden nhw eisiau cymryd rhan. Dyma rai o'r sylwadau a wnaed;



'Dwi'n mynd i ysgol arloesi a does neb wedi gofyn inni, yr athrawon sydd wedi mynegi barn. Dydy hynny ddim yn deg.'

'Eu haddysg nhw sydd o dan sylw, ac maen nhw'n adnabod eu gwersi yn well na neb. Dylen nhw gael lleisio barn. Nid dim ond holiaduron sy'n gofyn inni wneud sylwadau ar bethau penodol sydd eisoes wedi eu penderfynu!!!'

'Nhw sy'n dysgu ac os ydych chi eisiau iddyn nhw ddysgu'n dda mae'n rhaid i chi wrando arnyn nhw.'


08

Canlyniadau: Bod yn rhan o lunio'r cwricwlwm

8.2

Sut hoffech chi gymryd rhan?

Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i'r cyfranogwyr bleidleisio ar ddeng gwahanol ffordd y gallen nhw fod yn rhan o lunio'r cwricwlwm yn ogystal â rhoi cyfle i wneud sylwadau neu gynnis awgrymiadau eraill. Mae'r siart isod yn dangos canlyniadau'r holiadur ar-lein a'r grwpiau ffocws gyda'i gilydd.



08

Canlyniadau: Bod yn rhan o lunio'r cwricwlwm

Sylwadau a wnaed gan gyfranogwyr drwy'r holiadur ar-lein

'Mae unrhyw gyfle i ddysgwyr roi adborth yn dda.'

'Unrhyw beth sy'n cynnwys myfyrwyr wyneb yn wyneb.'

'Efallai nad yw cyfarfodydd neu holiaduron ar-lein yn ddigon effeithiol.'

'Mewn cynifer o ffyrdd â phosibl, ond dwi'n yr Ysgol Uwchradd a does neb wedi gofyn inni.'

'Byddai unrhyw rai o'r rhain yn gweithio i wahanol bobl.'

'Yr unig reswm nad ydyn nhw'n gweithio nawr yw oherwydd nad yw'r pennaeth yn gwranddo, dim ond yn gofyn iddyn nhw dicio bocs ar y Bwrdd Gwybodaeth'

'Gwrandewch ar y plant oherwydd mae'r fideos hyn yn dangos nad ydych chi wedi bod yn gwranddo'

'Fel eich bod chi'n cael cyfle i siarad a bod yn hapus'

OGL

ISBN Digidol 978-1-83933-298-2
Cwricwlwm i Gymru 2022 Dadansoddiad Adborth
Adroddiad Plant a Phobl Ifanc Awst 2019
© Hawlfraint y Goron 2019
WG38065

